CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: **Cabinet**

Dyddiad y Cyfarfod: **17/07/2024**

Teitl: **Adroddiad ar ganfyddiadau Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer 2023, yn unol â Rhan IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 - Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol.**

Pwrpas yr adroddiad: **Rhoi adborth yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau lachach ar y 15ed o Orffennaf 2024.**

Cefndir:
Roedd Heddwyn Evans a'r Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod o'r Cabinet, yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno'r adroddiad i roi gwybod i'r Aelodau am ganfyddiadau Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer Cyngor Sir Ceredigion 2023, yn unol â Rhan IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 - Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol, a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru yn Rhagfyr 2023.

Argymhelliad / Argymhellion:
1. Bod y Pwyllgor Craffu yn nodi cynnwys yr adroddiad, gan ei bod yn ddyletswydd gyfreithiol ar yr Awdurdod Lleol i fonitro Ansawdd Aer yn lleol.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i argymell bod y Cabinet yn:

1. Ystyried gosod Tiwbiau Tryledu ym Mhenparcau, Aberystwyth.

Y Cynghorydd Ceris Jones
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau lachach